

Chwarae

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan
yr elusen genedlaethol dros chwarae

dros Gymru

Rhifyn 36 Gwanwyn 2012



Chwarae:
mannau a llecynnau



Cynnwys

- | | | | |
|-----|---|----|--|
| 2 | Golygyddol | 12 | Rhwygo'r rheolau |
| 3 | Teyrnged i Gill | 14 | Y diweddaraf am P ³
Chwarae a'r gweithlu
Codi safon hyfforddiant
gwaith chwarae |
| 4-5 | Newyddion | 15 | Gwobr awdur gwaith
chwarae
Archwilio Mannau Chwarae
Adnoddau defnyddiol – o'r
bedair gwlad |
| 6 | 'The Land'
Prosiect Siop Chwarae
'Pop-Up' | 16 | Digwyddiadau
Ariannu |
| 7 | Mannau ar gyfer chwarae | | |
| 8-9 | Datblygu a rheoli manau
chwarae | | |
| 10 | Mannau chwarae – cwynion
cyffredin ac atebion syml | | |
| 11 | Adolygiad llyfr
Ymchwil chwarae'n llawn risg | | |

Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk

Golygyddol

Mae sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i fannau bywiog ac ysgogol i chwarae'n fodd pwysig o gefnogi eu lles a'u mwynhad allweddol o'u plentyndod. Mae hefyd yn cyflawni ein cyfrifoldeb o dan Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn – yr hawl i chwarae.

Mae amgylchedd da ar gyfer chwarae'n gaffaeliad i'n cymunedau, ond gall cynllunio, dylunio a chynnal a chadw manau chwarae cyffrous fod yn heriol. Bydd angen i fannau sydd wedi eu neilltuo ar gyfer chwarae fod wedi eu dylunio'n dda ac o ansawdd uchel er mwyn denu plant a rhieni ac er mwyn tyfu'n rhan gwerthfawr o'r gymuned leol.

Bydd plant yn dal i ofyn am fwy o amser a lle i chwarae, yn yr awyr agored, gyda'u ffrindiau. Er bod yr hyn y bydd plant ei eisiau o fannau chwarae'n amrywio gydag oedran, diddordebau ac amgylchiadau, yn gyffredinol byddant yn gofyn am fannau sy'n cynnig amrywiaeth, hyblygrwydd, elfennau naturiol, heriau a chyfleoedd i gymdeithasu.

Fydd manau chwarae diflas a sterilaidd ddim yn meithrin chwarae ac maent yn anneniadol i blant. Maent yn cyfleu neges ymhlyg nad ydym yn eu gwerthfawrogi; nad ydyn ni'n malio am y plant allai fod yn eu defnyddio. Pa mor aml fyddwn ni'n mynd heibio i faes chwarae plant a meddwl ble mae'r plant? Mae plant yn haeddu gwell.

Yn ogystal, mae adroddiad arall gan UNICEF yn pwysleisio bod chwarae'n elfen bwysig o ddatblygiad iach, gan bwysleisio 'nid oes hawl effeithiol i chwarae heb le diogel i chwarae'.*

Fodd bynnag, 'dyw'r ymrwymiad i chwarae plant ar lefel leol a chenedlaethol erioed wedi bod yn gryfach. Mae mwy a mwy o rieni ac aelodau o'r gymuned yn cysylltu â Chwarae Cymru yn chwilio am ffyrdd y gallent wella eu hardaloedd chwarae lleol. Ac, wrth gyflwyno'r Dyletswydd Digonoldeb Chwarae (gweler tudalen 4) mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, wedi amlinellu ei bwriad i drosglwyddo ymhellach ar ymrwymiad maniffesto Llywodraeth Cymru i 'barhau i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc i

chwarae'n ddiogel ac, yn benodol, i gefnogi gwell mynediad i chwarae ar gyfer plant ag anabledau'.

Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru* yn archwilio ffyrdd y gallwn gefnu ar agwedd draddodiadol a strwythuredig a dechrau darparu manau chwarae sy'n cyflawni anghenion chwarae plant a phobl ifainc. Mae'n anelu i arddangos bod modd inni, gyda dychymyg, cynllunio a dealltwriaeth o anghenion chwarae, greu a chynnal a chadw manau chwarae cyffrous, a hynny weithiau trwy wneud newidiadau bychain i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes.

Gweler tudalen 6 am enghraifft o brosiect chwarae llwyddiannus ac enghraifft arall ble mae prosiect chwarae dan fygythiad. Defnyddiwch dudalen Facebook 'Cymru – gwlad chwarae gyfeillgar' i'n hysbysu ynghylch yr hyn sy'n mynd ymlaen yn lleol i unai warchod neu wahardd hawl plant a phobl ifainc i chwarae.

<http://on.fb.me/playfriendlyplace>

* Gellir lawrlwytho adroddiad newydd UNICEF *The State of the World's Children 2012: Children in an urban world*, oddi ar: www.unicef.org

Teyrnged i Gill

Bu farw ein annwyl gyfaill a chydweithwraig, Gill Evans, ar 15 Hydref 2011 wedi dioddef o ganser ers nifer o flynyddoedd.



Fe weithiodd Gill gyda Chwarae Cymru ers 1998, gan weithio ei ffordd o fod yn gynorthwywraig weinyddol i fod yn Rheolwraig Cyfathrebiadau. Mae ei gorchestion wrth hyrwyddo hawl plant i chwarae yn niferus. Roedd Gill yn rhan o'r grŵp a ddatblygodd *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae ac Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol* a chefnogodd waith y Grŵp Craffu ar Egwyddorion Gwaith Chwarae. Fe arweiniodd Gill ddatblygiad y cylchgrawn *Chwarae dros Gymru*; fe olygodd, ac ysgrifennodd adrannau o ddeunyddiau cwrs lefel 2 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³); a dros nifer o flynyddoedd fe weithiodd gyda'r cartwnydd Les Evans i ddatblygu'r cartwnau a'r posteri sy'n nodweddiadol o Chwarae Cymru.

Y rôl yr oedd falchaf ohoni oedd ei gwaith yn trefnu Cynhadledd 50^{ed} Pen-blwydd yr International Play Association, fu'n llwyddiant ysgubol. Roedd Gill wedi gosod targed i'w hun i ddawnsio yn y gynhadledd gyda chydweithwyr o bob cwr o'r byd. Ac ymysg y ffrwyd o ateb anghenion cyfranogwyr, fe ddawnsiodd yn y Twmpath.

Byddwn yn cofio'n arbennig am Gill fel cyfathrebwraig ac awdur talentog. Bydd cydweithwyr o bob cwr o'r byd yn cytuno bod llawer o'r cyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan Chwarae Cymru'n destament i'w gallu i gyflwyno gwybodaeth hygyrch.

Roedd agwedd Gill tuag at ei gwaith â chydweithwyr yn un o gydweithredu a chyd-gynhyrchu. Roedd ganddi agwedd ddi-lol,

oedd yn gweddu i'w gwreiddiau yn Swydd Efrog, gan gydnabod os oedd problem bod angen mynd i'r afael â hi, a 'doedd dim ots pwy oedd rhaid dweud hynny wrtho. Roedd ein swyddfa yn lle hwyliog gyda Gill ynddi – golygai ei chwerthiniad mawr, ei meddwl praff a'i gwên ddisglair ei bod yn fan cyfoethog ac arbennig i fod ynddi.

Bydd pawb a gydweithiodd â Gill yn gweld ei heisiau'n fawr, ac wedi eu cyffwrdd gan ei brwdfrydedd am fywyd, ei phlant ei hun, plant pobl

Roedd Gill yn bleser i weithio â hi ac yn ysbrydoliaeth ... Colled aruthrol i'r gymuned chwarae yng Nghymru.

Tracey Bancroft,
Ezeeeplay Children's
Services / Play On The Move Ltd

eraill a'u chwarae, y celfyddydau creadigol a chacen lemon.

Diolch i gyfeillion a chydweithwyr am yr holl negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniom yma yn Chwarae Cymru – yr oedd llawer ohonynt yn cyfeirio at broffesiynoldeb, cymwynasgarwch a gwên heintus Gill. Dyma ddetholiad bychan o'r negeseuon caredig a dderbyniwyd:

Cafodd Gill effaith ysbrydoledig neilltuol amaf y tro cyntaf imi ei chyfarfod, y wên heintus yna, bob amser mor annwyl. Fe gofiai Gill fel rhywun fyddai wastad yn gwneud amser ichi, yn barod ei chymwynas, yn groesawus a phroffesiynol.

Dafydd Myrddin Hughes,
Dewis Chwarae

Bu cyfraniad Gill i waith Chwarae Cymru, ac i hyrwyddo hawl plant i chwarae, yn aruthrol. Fe wnaeth waith arbennig yn ei rôl yn trefnu Cynhadledd yr IPA, yr oedd yn falch iawn ohoni, a hynny'n gwbl haeddiannol. Cafodd Gill ei gwerthfawrogi a'i pharchu gan yr ystod eang o bobl y cydweithiodd â nhw.

Mary Nicholls, Tîm Polisi Gofal Plant a Chwarae,
Llywodraeth Cymru

Roedd yn bersonoliaeth cyfoethog, aml-dalentog, arbennig â synnwyr digrifwch neilltuol. Roedd yn bleser ei hadnabod a byddwn yn gweld ei heisiau'n fawr iawn.

Bwrdd Cyfarwyddwyr IPA (International Play Association)

Roedd pob cyfarfod â Gill fel cael eich trochi yng nghynhesrwydd yr heulwen. Fe fum i'n ddigon ffodus i fod ar un o'r Grwpiau Ymgynghorol ar gyfer cynhadledd yr IPA. Daeth Gill i'r ystafell, er gwaetha'r ffaith iddi fod yn sâl rai dyddiau'n gynt. Dyma Gill ar ei gorau, tonnau o gynhesrwydd wedi eu cyfuno â ffocws cwbl eglur ar yr angen i sicrhau bod y gynhadledd yn un arbennig o dda. Ac mi oedd.

Bernard Spiegel, PLAYLINK

'Does dim geiriau digonol i'w cael i fynegi'r tristwch o glywed y newydd digalon am gollu menyw arbennig - Gill. Mae'n anrhydedd yn ogystal â'n bleser i fod wedi cael adnabod Gill, a byddwn yn ei chofio'n annwyl â'i gwên fawr gynnes a'i gallu i helpu pobl, fi'n un ohonynt!

Maria Austin, Sir Gaerfyrddin

Y diweddaraf am y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae

Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, wedi cytuno i gychwyn adran 11, Cyfleoedd Chwarae, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 mewn dau ran. Bydd rhan un yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu bod cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd yn unol â rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru, â chefnogaeth rhanddeiliaid, wedi drafftio'r rheoliadau a'r canllawiau statudol fydd yn amlinellu manylion yr hyn ddylid ei ystyried yn yr asesiadau.

Cynhelir tri digwyddiad ymgysylltu ym mis Mai, i gynnig cyfle i drafod y dogfennau hyn ymhellach. Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn cychwyn ar ddechrau mis Ebrill. A rhoddir ystyriaeth dyledus i bob ymateb wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol terfynol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagwelir y caiff yr elfen yma o adran 11 ei gychwyn ar ddechrau mis Tachwedd 2012. Er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol i gynnal yr asesiadau, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio â Chwarae Cymru i ddatblygu pecyn cymorth i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn y dylid ei gynnwys.

Bydd rhan dau o'r adran yma'n gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, gan ystyried eu asesiadau. Caiff hwn ei gychwyn pan fo ystyriaeth llawn wedi ei roi i'r asesiadau a'r cynlluniau ar gyfer sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

<http://cymru.gov.uk>

Athro Gwaith Chwarae

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Fraser Brown wedi derbyn Cadair Athro mewn Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol Fetropolitan Leeds – y cyntaf yn y DU.

Mae'r Athro Fraser Brown yn ddarlithydd ar gwrs BA (Anrh) Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol Fetropolitan Leeds ac mae'n awdur nifer o gyhoeddiadau'n cynnwys *Foundations of Playwork* (2008, gyda Chris Taylor), *The Venture: a Case Study of an Adventure Playground* (2007) a *Playwork: Theory and Practice* (2003).

Bydd Fraser yn brif siaradwr gwadd yng nghynhadledd Ysbryd Chwarae Antur, Chwarae Cymru yn y dyfodol agos – gweler y daflen amgaeedig am fwy o fanylion.

Meysydd chwarae di-fwg yng Nghymru



Mae strategaeth gynhwysfawr gyntaf Cymru ar gyfer delio â'r niwed a achosir gan dybaco i gymunedau Cymru, *Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco*, yn amlinellu cynlluniau ar sut i sicrhau na fydd plant yn gorfod dioddef mwg ail-law trwy hyrwyddo meysydd chwarae, cartrefi a cheir di-fwg.

Mae'r Cynllun yn nodi'r modd y caiff awdurdodau lleol eu hannog i gyflwyno polisiâu di-fwg ar gyfer meysydd chwarae plant, ac i weithio gydag ysgolion i fabwysiadu polisiâu di-fwg ar gyfer tiroedd ysgol a chaeau chwarae.

Gellir lawrlwytho'r cynllun oddi ar: <http://wales.gov.uk/topics/health/improvement/index/tobaccoplan/?skip=1&lang=cy>

Mae ASH Wales yn parhau â'r ymgyrch i sicrhau y bydd pob maes chwarae plant yng Nghymru'n ddi-fwg. Ymwelwch â'u tudalen ymgyrchu ar: www.ashwales.org.uk/smokefree-playgrounds

Rhwydweithio cymdeithasol

Nawr gallwch ddilyn Chwarae Cymru ar Twitter a Facebook



www.facebook.com/ChwaraeCymru



twitter.com/ChwaraeCymru

Rôl PLAYLINK yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012

Mae PLAYLINK yn rhan o'r consortiwm buddugol a benodwyd i ddylunio'r Parc Olympaidd Deheuol sy'n rhan o'r Etifeddiaeth Olympaidd.

Yn nod yw creu 'cyrchfan gymhellol ar gyfer trigolion Llundain, ac ymwelwyr o Brydain ac o bob cwr o'r byd ... parc bywiog, hardd'. Mae'r weledigaeth yn cynnwys creu 'man ble y bydd pawb, o drigolion lleol i dwristiaid rhyngwladol, yn teimlo'n gyfforddus a bod croeso iddynt, a ble y byddant yn mwynhau treulio amser' a 'man cyhoeddus, democrataidd, hwyliog.' Yr unig ffordd y caiff y weledigaeth yma ei chyflawni yw os y darperir yn llwyddiannus

ar gyfer plant a theuluoedd, trwy ddarpariaeth chwareus yn ardaloedd cyhoeddus y parc.

Mae nodau'r briff yn cynnwys creu parc sy'n gyrchfan o bwys ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, lleoliad fydd yn croesawu atyniadau a digwyddiadau, rhad ac am ddim ac am dâl, bychan a mawr (fydd yn denu tua 30,000 o bobl ar y tro), tra ar yr un pryd yn creu parc 'chwareadwy', sy'n gwasanaethu cymdogaethau lleol mewn ardal ddifreintiedig o Lundain.

I PLAYLINK, mae bod yn rhan o'r prosiect hwn yn golygu heriau sydd yn ymarferol yn ogystal â moesol. Yn gryno, maent yn ymwneud â'r

cwestiwn: i ba raddau all chwarae – ar gyfer plant a phobl ifainc yn eu harddegau – gael ei ddiogelu fel elfen annatod o'r parc yn ei gyfanrwydd mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd sefydledig PLAYLINK a'n agwedd gyffredinol tuag at ddylunio? Mae'n anorod y bydd prosiect o'r maint yma'n gofyn am gyfaddawdu, llawer ohono wedi ei achosi gan realiti moel cyfyngiadau ar gyllidebau a gofynion technegol.

www.playlink.org

PLAY LINK

Buddiannau iechyd a lles canolfannau chwarae dan do

Mae'r Play Providers Association yn gweithio gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Efrog i archwilio'r cyfraniad y bydd canolfannau chwarae dan do'n ei wneud i iechyd a lles plant.



sgiliau symud a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi plant ag ACD.

Bydd Andy Buckton, Uwch-Ddarlithydd mewn Chwaraeon ym Mhrifysgol Efrog, yn mesur gweithgarwch corfforol plant yn ystod cyfnodau chwarae rhydd

ac mae'n gobeithio datblygu dealltwriaeth ynghylch y cyfraniad y bydd chwarae dan do'n ei gynnig wrth gyflawni lefelau argymelledig ar gyfer gweithgarwch corfforol yr Adran Iechyd (2004). Meddai Andy:

'Mae hwn yn gyfle gwych i archwilio'r gweithgarwch corfforol fydd yn digwydd yn ystod ymweliadau â chanolfannau chwarae a bydd yn helpu i ddynodi'r rôl y gall aelodau PPA ei chwarae wrth sicrhau bod mwya'r blant yn mwynhau gweithgarwch corfforol digonol, gan fynd i'r afael â buddiannau iechyd uniongyrchol a sicrhau ymddygiad tymor hir sy'n berthnasol i iechyd.'

www.playproviders.org.uk

Mae arfer myfyriol ac arsylwadau'n profi inni bod chwarae'n wych ar gyfer iechyd plentyn, fodd bynnag heb y data a'r ymchwil angenrheidiol mae'n anodd darbwyllo comisiynwyr bod chwarae'n fuddsoddiad gwerthfawr a bod canolfannau chwarae dan do'n adnodd gwerth eu cynnal.

Dengys tystiolaeth bod tua 4.9% o blant ag Anhwylder Cydsymudiad Datblygiadol (ACD) sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyfranogi'n llwyddiannus mewn addysg corfforol yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau chwarae a hamdden ble fo cydsymudiad corfforol yn allweddol. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar rôl chwarae dan do wrth ddatblygu a chynyddu

Ymgyrch 'Free Range Kids'

Mae ymgyrch 'Free Range Kids' Sustrans yn anelu i sicrhau y caiff cenedlaethau'r dyfodol o blant hapus, iach ac annibynnol y rhyddid, yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i grwydro oddi wrth riniog drws y tŷ.



Mae Sustrans wedi lansio Cynnig Cynnar-yn-y-dydd (CCD) i ddod â materion sy'n ymwneud â rhyddid plant at sylw Aelodau Seneddol. Mae CCD yn gynnig ffurfiol a gyflwynir i'w ddadlau yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae'n caniatáu i Aelodau Seneddol dynnu sylw at ddigwyddiad neu achos.

Mae dros 125 o Aelodau Seneddol wedi arwyddo'r CCD ond bydd angen o leiaf 200 i gael effaith. Os hoffech ofyn i'ch AS arwyddo'r CCD, ceir enghraifft o ebost syml ar wefan 'Free Range Kids' – www.sustrans.org.uk/freerangekids

'The Land'

Maes Chwarae Antur Plas Madoc

Claire Griffiths, Rheolwraig Prosiect 'The Land' yn Wrecsam, sy'n sôn wrthym am heriau a llwyddiannau datblygu maes chwarae antur mynediad agored newydd yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

O ystyried yr hinsawdd ariannol presennol, mae'n braf cael rhannu stori datblygu a chyflawni llwyddiannus, er i'r siwrnai fod yn un gymhleth, heriol a phroblemus ar adegau. Allai neb fod wedi rhagweld y treialon a'r trallodion ddaeth yn sgîl y prosiect i ddatblygu maes chwarae antur newydd ar ystad Plas Madoc, rhai ohonynt mor ddifrifol fel bod perygl i'r grant gael ei golli. Bu'r ariannu ar gyfer y prosiect yn sefyll yn segur am bron i ddwy flynedd wrth i ofn ac ansicrwydd afael yn y gymuned oedd mewn perygl o golli rhywbeth yr oeddent wedi gweithio mor galed amdano.

Roedd y materion wnaeth godi'n cynnwys methu hysbysebu gwaredu tir, arweiniodd at wrthwynebiad gan aelod o'r gymuned, olygodd orfod ailddylunio'r cynlluniau; wnaeth, wrth gwrs, achosi oedi gyda'r prosiect, yn ychwanegol i'r bom amser di-baid o gydymffurfio â'r arianwyr.

Yn y diwedd fe wnaeth penderfyniad, brwdfrydedd, cred a gwaith caled arwain at weld y prosiect yn dod i'w derfyn ar 17 Chwefror 2012 pan agorwyd maes chwarae antur 'The Land' yn swyddogol.

Trwy gydol y gwaith datblygu fe barhaodd y chwarae a'r gwaith chwarae ar ac o amgylch y man chwarae, ni chafodd y gymuned eu gwahardd rhag defnyddio'r safle o gwbl.

Mae 'The Land' yn destun newid parhaus, gan esblygu mewn ymateb i, ac ar gais, anghenion a dymuniadau goddrychol y plant. Mae 'The Land' yn ofod sydd wedi ei amgylchynu â choed, dŵr, glaswellt a phridd, ac mae'n rhywle ble y gellir cuddio, rhedeg, dringo, bod yn swnllyd, bod yn anniben neu'n rhywle y gellir dianc iddo.

Mae'r lleoliad yma'n cynnig cyfleoedd a phosibiliadau chwarae diddiwedd sy'n treiddio trwodd i'r gymuned ehangach, gan sicrhau bod trigolion lleol yn fwy gwybodus ac, o'r herwydd, yn fwy parod i dderbyn chwaraegarwch a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â chwarae plant.



Am fwy o wybodaeth nodwch eich bod yn 'hoffi' *Play on Plas Madoc* ar Facebook

Prosiect Siop Chwarae 'Pop-Up'

Morgan Leichter-Saxby, Rheolwr-gyfarwyddwr Hyfforddiant Gwaith Chwarae, Pop-Up Adventure Play a'r Global Network, sy'n sôn wrthym am y bygythiad cau sy'n wynebu Siop Chwarae 'Pop-Up' Caerdydd.

Mae Pop-Up Adventure Play UK wedi bod yn gweithio gyda Stofa Sgrap Re-Create a Chymdeithas Chwarae Caerdydd a'r Fro i drawsnewid siop, fu'n wag ers

amser, yn fan chwarae cymunedol, a hynny yng nghanol Caerdydd.

Mae'r Siop Chwarae peilot yn gwbl rhad ac am ddim, yn agored i bawb, ac yn gwerthu dim. Derbyniodd y prosiect ariannu Grant Chwarae Bychan Cymorth, ond nawr mae'n gorfod apelio'n erbyn yr adran Trethi Busnes – sy'n codi mwy na hanner gwerth y grant hwnnw mewn trethi busnes.

Derbyniodd ymgyrch y prosiect ymateb neilltuol gan drigolion a mudiadau lleol, gyda channoedd o lofnodion ar ddeiseb a llythyrau i'r

Cyngor gan Aelodau'r Cynulliad, Eluned Parrot a Leanne Wood, a'r AS Jenny Wilcott.

Meddai Eluned Parrot AC 'Mae cynlluniau fel y Siop Chwarae 'Pop-Up' yn chwarae rhan allweddol gan eu bod yn galluogi plant a theuluoedd i gael mynediad i chwarae adeiladol, sy'n helpu plant i ddysgu mewn amgylchedd cadarnhaol ac sy'n rhoi hyder i rieni i sbarduno gweithgareddau chwarae gyda'u plant'.

Gallwch ddysgu mwy am y prosiect ar www.popupplayshop.org

Mannau

ar gyfer chwarae

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywyd – maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a manau o safon i chwarae.

Bydd ymgynghoriadau â phlant a phobl ifainc yn dangos bod yn well ganddynt chwarae'r tu allan a draw o oruchwyliaeth oedolion – mewn manau diogel ond ysgogol. Yn y sefyllfa yma bydd plant yn tueddu i fod yn gorfforol egniol ac i ymestyn eu hunain yn gorfforol yn ogystal ac yn emosynol lawer mwy na fyddent pe baent wedi eu goruchwyllo.

Bydd y rhan fwyaf o blant yn chwarae heb angen am ymyrraeth oedolion, hyd yn oed mewn amgylchedd cwbl ddiffaith, ond bydd amgylchedd sy'n gyfoethog mewn posibiladau'n cefnogi eu chwarae orau oll. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog: yn amgylchedd corfforol amrywiol a diddorol sy'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch a her; ac yn fan ble y bydd plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, ac ar eu telerau eu hunain. Er mwyn gwneud y gorau o fan chwarae, bydd angen i blant allu ei addasu a'i fowldio i ateb eu anghenion chwarae a bydd angen iddo newid dros amser a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer chwarae.

Bydd amgylcheddau chwarae o safon yn cynnig amrywiol gyfleoedd:

- **her ac ansicrwydd** – ar lefel corfforol yn ogystal â lefel emosynol
- **rhannau rhydd** – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u addasu, eu adeiladu a'u chwalu
- **symud** – rhedeg, neidio, dringo, balansio, rholio

- **plant a phobl ifainc eraill** – gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, i drafod, cydweithredu, dadlau a datrys anghydfodau
- **chwarae gwylt** – chwarae ymladd
- **y byd naturiol** – y tywydd, coed, planhigion, pryfed, anifeiliaid, mwd a'r elfennau
- **y synhwyrâu** – sain, blas, gwedd, arogl a golwg

Cynllunio manau chwarae

Mae *Design for Play* (Play England, 2008) yn egluro sut y gall manau chwarae da rhoi rhyddid i blant a phobl ifainc chwarae'n greadigol, tra'n caniatáu iddynt brofi risg, her a chyffro. Ceir cyngor hefyd ar sut y gellir cynnal a chadw manau chwarae mewn modd fforddiadwy.

Anelir *Nature play: Maintenance guide* (Play England, 2009) at y bobl hynny sy'n gyfrifol am ddatblygu, trosglwyddo a chynnal a chadw manau chwarae naturiol arloesol mewn parciau neu safleoedd tebyg. Mae'n helpu i ddynodi gweithdrefnau ar gyfer cynnal a chadw parhaus y manau chwarae hyn, gan sicrhau y caiff yr angen am ariannu refeniw parhaus ar gyfer cynnal a chadw, atgyweirio neu osod offer newydd ei ystyried.

Rheoli risg

Bydd *Managing Risk in Play Provision: Implementation Guide* (Play England, 2008) yn ehangu ar ddatganiad sefyllfa'r Play Safety Forum, *Managing Risk in Play Provision* (2002). Mae'r canllaw'n arddangos sut y gall y bobl hynny sy'n gyfrifol am ddarpariaeth chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried y buddiannau y bydd y ddarpariaeth yn ei gynnig i blant a phobl ifainc, yn ogystal â'r risgiau.

Sut mae Chwarae Cymru'n defnyddio'r canllawiau yng Nghymru

Derbyniodd Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir, mewn partneriaeth â Chwarae Plant, ariannu gan Raglen Blaenau'r Cymoedd ym mis Medi 2010 i ddylunio ac adeiladu manau chwaraeadwy naturiol ar draws y rhanbarth. Bydd y prosiect yn creu manau chwarae naturiol sy'n llawn cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifainc yn eu harddegau, gan ddarparu ystod eang o brofiadau chwarae sy'n hygyrch i blant anabl a phlant sydd ddim yn anabl ac sy'n darparu ar gyfer anghenion y gymuned leol.

Ar hyn o bryd mae Chwarae Cymru dan gytundeb i gydlynu'r prosiect hwn, fydd yn creu manau newydd yng Nghoedlannau Sirhywi (Blaenau Gwent) ac yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Maerdy (Rhondda Cynon Taf). Caiff y prosiect ei seilio ar yr egwyddorion a geir yn *Design for Play a Managing Risk in Play Provision: Implementation Guide*.

Fel rhan o'r prosiect, mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu dwy daflen wybodaeth er mwyn cynorthwyo cymunedau lleol i wella manau chwarae lleol. Mae taflenni gwybodaeth *Mannau Chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml a Mannau Chwarae: cynllunio a dylunio* ar gael i'w lawrlwytho oddi ar – www.chwaraecymru.org.uk

Yn ogystal, mae Chwarae Cymru'n gweithio gyda'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a'r Panel Cyfran Deg ar Ynys Môn i 'ddarparu mwy o gyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn i gael mynediad i'w hawl i gyfleoedd chwarae hygyrch, o safon, a ddewisir o wirfodd yn eu cymunedau lleol.'

Fel rhan o'r prosiect hwn mae Chwarae Cymru wedi ei ariannu i ddatblygu pecyn cymorth cymunedol fydd yn llanw bwlch yn y gefnogaeth sydd ar gael i grwpiau sy'n rheoli ardaloedd chwarae yn y Sir, er mwyn sicrhau datblygu manau chwarae hygyrch o safon. Bwriedir i'r pecyn cymorth cymunedol, *Datblygu a Rheoli Mannau Chwarae*, fod yn un ffynhonnell o gefnogaeth a chyfeirio er mwyn i grwpiau cymunedol allu llywio eu ffordd trwy rai o'r heriau a geir wrth reoli neu ddatblygu man chwarae.

Datblygu a rheoli mannau chwarae

Dechreuodd Rhaglen Cyfran Deg Y Gronfa Loteri Fawr ar Ynys Môn yn 2002, gyda'r bwriad o wella cyfleoedd ar gyfer chwarae plant.

Un o amcanion allweddol Cynllun Busnes Cyfran Deg yw datblygu pecyn cymorth cymunedol i gynnig cefnogaeth i grwpiau sy'n rheoli ardaloedd chwarae yn y Sir, er mwyn sicrhau datblygiad mannau chwarae o safon sy'n hygyrch.

Mae'r pecyn cymorth cymunedol *Datblygu a Rheoli Mannau Chwarae* wedi ei ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli neu ddatblygu man chwarae mewn cymuned. Gallai fod yn gyngor cymuned, yn gymdeithas chwarae leol neu'n grŵp o drigolion.

Mae'r pecyn cymorth yma'n cynnwys dwy adran:

DYLUNIO – sy'n canolbwyntio ar ddylunio mannau chwarae newydd ac sy'n cynnwys pynciau fel cyfranogaeth, caffael, dylunio, iechyd a diogelwch.

RHEOLI – sy'n canolbwyntio ar dechnegau rheoli mannau chwarae sy'n bodoli eisoes, neu sydd newydd eu creu, ac sy'n cynnwys pynciau fel cynnal a chadw ac archwilio, rheoli risg ac yswiriant.

Dyma ddyfyniadau o adran

Cyfranogaeth ac ymgysylltu y pecyn cymorth.

Mae gan blant hawl i ymgynghori ar faterion sy'n effeithio arnynt.
(Erthygl 12 CCUHP)


Ceir amrywiol ffurfiau ar gyfranogaeth ac ymgysylltu. Mae holi plant 'Beth ydych ei eisiau yn eich ardal chwarae?' yn ddull fydd, fel arfer, yn derbyn ystod cyfyngedig o ymatebion fydd yn seiliedig ar brofiadau'r plentyn o fannau

chwarae (siglen, llithren, rowndabowt) neu restr o eitemau annhebygol neu anymarferol (bwyty bwyd brys, pwll nofio, Xbox ar gyfer pob plentyn yn yr ardal).

Ceir ystod o ddulliau y gellir eu defnyddio â phlant i gasglu eu barn ac i'w cynnwys yn y datblygiadau arfaethedig. Yn bwysicaf oll, os nad oes gennym brofiad

blaenorol o gyfranogaeth â phlant neu os nad ydym yn teimlo ei fod yn ddawn sydd gennym yn ein mudiad neu bartneriaeth, ceir pobl leol all gynnig cymorth uniongyrchol inni:

- Swyddog Chwarae
- Swyddog / Tîm Cyfranogaeth
- Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Ysgol leol neu gyngor ysgol
- Darpariaeth blyneddoddedd cynnar neu feithrin
- Darpariaeth clwb ieuencid neu gwaith maes.



Canllawiau Tanio!

Mae Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau arfer da ar gyfranogaeth plant a phobl ifainc. Gellir eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim oddi ar:

<http://participationworkerswales.org.uk/resources.aspx>

Tanio 6 *Gweithio â rhai o dan 11 oed* a Tanio 7 *Sicrhau Cynhwysiant* - yw'r ddau ganllaw sydd fwyaf perthnasol i waith sy'n ymwneud â datblygu mannau chwarae.

Mae *'Participation – Spice it Up!'* yn gyhoeddiad a ddatblygwyd gan Dynamix ac sy'n darparu ystod o gemau a gweithdai i'w cynnal â phlant a phobl ifainc er mwyn helpu i gasglu eu barn mewn modd hwyliog a chynhwysol.

www.dynamix.ltd.uk

Dulliau Cyfranogaeth ac Ymgysylltu

Gall cyfranogaeth ddiogwydd mewn nifer o wahanol ffyrdd:

Gemau, gweithgareddau, gweithdai – Gemau a gweithgareddau corfforol, gweithgareddau celf a chrefft, adrodd straeon, trafodaethau grwpiau bychain, drama, chwarae rôl, pypedau, cyfweiliadau un-i-un neu gyfoedion.

Arsylwadau – Bydd darparu cyfleoedd i blant chwarae mewn ardal a chynnal arsylwadau o'u hoff ymddygiadau chwarae'n cynnig arwydd da o'r hyn y mae plant yn hoffi ei wneud heb eu tynnu oddi wrth eu chwarae.

Archwiliadau Chwarae – Bydd yn darparu tystiolaeth o'r modd y bydd plant eisoes yn defnyddio man chwarae penodol a gellir eu defnyddio i lunio cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth o'r arsylwadau ynghylch sut y dylid datblygu'r safle.

Adeiladu, plannu, clirio – Os oes elfennau o'r man chwarae y gallai'r gymuned eu datblygu, byddai cael plant a phobl ifainc ynghlwm â'r gwaith yn eu helpu i lunio'r man chwarae a rhoi ymdeimlad o berchenogaeth iddyn nhw. Mae plannu coed / bylbiau, palu, paentio, adeiladu a chlirio sbwriel yn ffyrdd gwych o gynnwys y gymuned yn natblygiad y man chwarae ac o gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y datblygiad sydd ar y gweill. Efallai mai yn ystod gweithgareddau cymunedol y bydd pobl ifainc yn mynegi eu syniadau wrth sgwrsio'n anffurfiol – dylid sicrhau bod modd cofnodi eu syniadau.

Caniatáu am newidiadau fel rhan o'r broses ddylunio – Mae plant a phobl ifainc yn hoffi gallu newid eu hamgylchedd. Dyma pam y bydd plant yn adeiladu cuddfannau ac yna'n eu chwalu, gan eu haddasu'n barhaus. Bydd darparu elfennau o fan chwarae y gall plant ddal i'w newid yn sicrhau y gallant gael rôl uniongyrchol yn esblygiad y safle dros amser. Gallai hyn fod yn ardal y gadewir iddi dyfu'n wyllt sydd at ddefnydd y plant yn unig neu'n lwybr pridd ar gyfer beiciau BMX y gallant ei addasu.

Holiaduron – Targed holiaduron i grŵp penodol o bobl yw'r modd mwyaf effeithlon o sicrhau y ceir ymateb. Un modd o wneud hyn yw trwy dargedu'r ysgol leol a gweithio gydag athrawon i annog y plant i gwblhau holiaduron am ble a sut y maent yn hoffi chwarae yn eu cymuned. Fel gyda pob dull cyfranogi, bydd angen i'r cwestiynau a ofynnir fod yn rhai agored ond yn ddigon penodol i osgoi casglu ymatebion afrealistig. Gall canlyniadau'r holiaduron helpu i sicrhau bod y man chwarae'n darparu ar gyfer yr ystod eang o bethau y bydd plant yn hoffi eu gwneud – yn rhyfedd ddigon fydd yr ymatebion i gyd ddim yn sôn am siglenni a llithrennau!

Herio'r myth

Dylen ni ddim croesawu pobl ifainc yn eu harddegau i fannau chwarae

Os oes pobl ifainc yn eu harddegau yn y gymuned ble y byddwn yn datblygu'r man chwarae, mae'n gwbl naturiol y bydd ganddynt ddi-ddordeb ynddo ac y byddant am gymdeithasu yno. Dylech ddylunio darpariaeth ar gyfer pobl ifainc yn eu harddegau i mewn i'r safle a'u cynnwys yn y broses o ddewis beth i roi yno.

Dyma ddyfyniadau o'r adran Egwyddorion dylunio manau chwarae cynhwysol.

Pan fyddwn yn datblygu man chwarae dylid ystyried anghenion plant yn y gymuned fydd, neu allai yn y dyfodol fod yn defnyddio'r man chwarae. Golyga hyn y bydd angen inni feddwl sut y gallai plant sydd ag amrywiol anableddau gael mynediad i'r cyfleoedd chwarae a ddarperir.

Cofiwch fod mynediad i gadeiriau olwyn yn ffactor bwysig, ond y dylai'r safle fod yn hygyrch i ystod eang o blant yn gyffredinol. Er enghraifft, byddai prynu rowndabowt cadeiriau olwyn costus yn caniatáu i blant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i brofi mynd ar rowndabowt, ond cofiwch feddwl am rai ystyriaethau ymarferol:

- Pa gyfran o'r gyllideb fyddai un darn o offer arbenigol yn ei gostio – allen ni brynu nifer o eitemau llai o faint sy'n darparu ystod o gyfleoedd am yr un pris?
- Ydyn ni am wahanu plant fel eu bod yn defnyddio darnau o offer arbenigol?
- Ydyn ni'n gwybod os oes unrhyw ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn y gymuned ar hyn o bryd fyddai'n defnyddio offer o'r fath yn rheolaidd?
- Ydyn ni ddim ond am ddarparu un cyfle chwarae ar gyfer plant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu a fyddai'n well gennym gael nifer o eitemau amhenodol y gellir eu defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl sydd ddim yn defnyddio cadair olwyn?

Cofiwch y bydd prynu eitemau y gellir eu defnyddio gan fwy nag un person yn golygu y gall y plentyn gael ei gynorthwyo gan riant, gofalwr neu gymhorthydd personol. Hefyd, mae 'cynhwysiant' yn derm cymdeithasol – mae'n hanfodol sicrhau mynediad i'r profiad cymdeithasol o chwarae gyda ac o amgylch plant eraill, ac nid o reidrwydd â phob darn o offer.

Isod ceir rhestr o enghreifftiau o offer traddodiadol a nodweddion naturiol y gellid eu cynnwys mewn ardal chwarae allai gynnig cyfleoedd chwarae i ystod eang o blant.

Llithrennau – bydd llithren letach yn cynnig cyfleoedd mwy hyblyg na llithren gul draddodiadol. Os y caiff y llithren ei hadeiladu ar lethr, gellir adeiladu llwybr hygyrch er mwyn sicrhau bod mynediad yn rhwydd i'r top.

Siglenni – bydd siglenni basged yn dileu'r angen i blentyn allu cynnal ei bwysau ei hun gan y bydd yn gorwedd i lawr neu'n mynd â rhywun gyda nhw i'w cynorthwyo.

Ysgolion, rhaffau, waliau dringo a rampiau – ddylen ni ddim osgoi darparu'r rhain mewn ymdrech i fod yn gynhwysol. Bydd darparu ystod o ffyrdd i blant ddefnyddio offer yn rhoi mwy o opsiynau ar gyfer cael mynediad iddo.

Yr ardal gyfagos – mae goleuo, parcio, toiledau hygyrch, lled a mathau penodol o gatiâu / gridiau a chyrbau isel yn elfennau sy'n gwneud mynd i mewn i'r safle'n rhwyddach. Efallai na fydd gennym reolaeth dros rai o'r elfennau hyn, ond maent yn ffactorau i'w hystyried yn y tymor hwy.

Nodweddion Naturiol – plociau, creigiau, deunyddiau rhydd – cofiwch fod yr eitemau hyn yn rhai 'anghyfarwyddol', gan nad oes ffordd 'gywir' nac 'anghywir' o chwarae a rhyngweithio â nhw – bydd hyn yn caniatáu i'r plant ddehongli sut i'w defnyddio yn eu ffordd eu hunain.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n chwilio am gymorth ariannol i sicrhau bod pecyn cymorth cymunedol *Datblygu a Rheoli Manau Chwarae* ar gael i fwy o gymunedau.

mannau chwarae

cwynion cyffredin ac atebion syml

Daw'r dyfyniadau isod o daflen wybodaeth newydd Chwarae Cymru sef *Mannau Chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml*.

Bydd plant sy'n chwarae allan mewn cymunedau lleol yn cael mynediad i ystod eang o fannau ble y caiff eu chwarae ei gefnogi – y stryd leol, llain o dir agored, maes parcio, lôn neu faes chwarae.

Yn aml bydd llawer o rieni ac aelodau o'r gymuned yn ystyried y maes chwarae fel y man mwyaf priodol ond yn ei ystyried fel gofod annigonol ar gyfer chwarae ynddo. Mae nifer o'r agweddau sy'n achosi pryder i rieni'n ymwneud â diogelwch y safle a chyflwr offer chwarae os yw wedi torri a heb ei atgyweirio ers amser.

Sbwriel

Bydd man chwarae sy'n llawn sbwriel yn ymddangos yn anatyniadol ac yn anghyfeillgar. Fodd bynnag, gall presenoldeb sbwriel, yn enwedig pecynnau creision a chaniau diod fod yn dystiolaeth bod plant yn defnyddio'r safle i gwrdd, chwarae a chymdeithasu gyda'u ffrindiau. Weithiau bydd eitemau eraill o sbwriel yn ymddangos fel darnau o bren, blychau cardbord a chlustogau, allai fod wedi eu cludo yno gan blant er mwyn chwarae â nhw.

Yn aml bydd biniau sbwriel i'w cael mewn mannau chwarae ffurfiol, ond bydd rhieni'n cwyno ynghylch faint o sbwriel sydd yno a bod y "cyngor" yn gwneud dim am y peth. Ffordd syml o ddelio â hyn yw i gasglu'r sbwriel a gallwn annog y plant i beidio â thafu sbwriel. Trwy helpu i gadw ardal chwarae'n rhydd o sbwriel gallwn annog pobl i beidio â thafu rhagor o sbwriel.

Ymunwch â rhieni a phlant lleol a threfnu sesiwn casglu sbwriel. Anogwch y plant i greu posteri i'w harddangos yn yr ardal chwarae,

yn gofyn i bobl fynd â'u sbwriel gartref gyda nhw. Bydd hyn yn golygu bod y safle'n fwy deniadol, ond yn ogystal, trwy chwarae rhan weithredol, bydd y gymuned leol yn gweld bod y man chwarae'n bwysig ac yn werth gofalu amdano.

Baw cŵn

Gall ardal chwarae â ffens o'i amgylch helpu rhywfaint i gadw ardal chwarae'n rhydd o faw cŵn, ond 'dyw hyn ddim yn wir bob amser. Bydd rhai plant yn mynd â'u cŵn eu hunain i ardal chwarae er mwyn chwarae â nhw. Ble fo man chwarae'n fwy agored a heb ffens o'i amgylch, gall ddiodef mwy o broblemau â baw cŵn, ond efallai ddim mwy na'r stryd. Mae baw cŵn yn hynod o annymunol a gall achosi niwed i blant ac oedolion fel ei gilydd, os y byddant yn dod i gysylltiad ag e'.

Mewn rhai ardaloedd bydd y cyngor yn darparu biniau baw cŵn arbennig. Os yw hyn yn broblem sylweddol, cysylltwch â'ch cyngor lleol i ofyn iddynt osod bin. Neu, gweithiwch â'r plant lleol i ddylunio ac arddangos posteri'n gofyn i berchnogion cŵn beidio â chaniatáu i'w cŵn faeddu'r ardal chwarae – gan atgoffa pawb ei fod yn fan penodedig ar gyfer chwarae plant.

Eitemau miniog

Ceir canfyddiad cyffredin mewn rhai cymunedau bod ardaloedd chwarae'n llawn geriach cyffuriau. Ond, 'dyw hyn ddim mor gyffredin ag y mae pobl yn ei feddwl. Efallai y daw rhai ar eu traws tra'n casglu sbwriel, ac yn aml bydd pecynnau casglu sbwriel yn cynnwys blychau 'eitemau miniog' er mwyn sicrhau y gellir casglu a gwaredu chwistrellau a nodwyddau yn ddiogel. Ble fo hyn yn achos pryder, cysylltwch â'ch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ofyn am gymorth.

Pobl ifainc yn eu harddegau

Yn aml ceir cwynion bod pobl ifainc yn eu harddegau'n loetran mewn ardaloedd chwarae; byddant yn cael eu hystyried yn wrth-gymdeithasol a thrafferthus. Bydd angen hefyd i bobl ifainc yn eu harddegau gael caniatâd i ddefnyddio mannau agored cyhoeddus i gwrdd a'u ffrindiau. Yn aml iawn, mewn mannau chwarae y bydd plant yn cwrdd â'u ffrindiau wrth iddynt ddechrau chwarae'r tu allan yn annibynnol, felly 'does ryfedd, wrth iddynt dyfu i'w harddegau, y caiff y gofod ei ddefnyddio i'r un diben.

Yn anffodus, yn aml iawn fydd offer chwarae ddim yn ateb eu anghenion fel plant hŷn. Bydd cynnwys offer a chyfleusterau sy'n ateb eu anghenion yn well â'r posibilrwydd o leihau trafferthion lleol. Er enghraifft, bydd siglenni wedi eu clymu o amgylch y ffrâm yn destun cŵyn cyffredin. Yn aml, bydd hyn yn arwydd bod yr offer yn cael ei addasu a'i wneud yn fwy cyffrous at ddefnydd gan blant hŷn, yn hytrach na'n arwydd o fandaliaeth. Bydd hyn yn digwydd pan fyddant wedi mynd yn rhy fawr i ddefnyddio'r offer neu eu bod wedi diflasu â'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael, a'u bod yn chwilio am ffyrdd i wneud y gofod yn fwy diddorol.

Bydd man chwarae sy'n fwy heriol, sy'n fwy cyffrous ac sy'n gweddu'n well i gynnwys plant hŷn, yn rhoi parch iddynt yn ogystal â'r cyfle i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn rhan o'u cymuned.

Mae *Mannau Chwarae: cwynion cyffredin ac atebion syml* ar gael i'w lawrlwytho ar www.chwaraecymru.org.uk

adolygiad llyfr

Ben Tawil, Uwch-Ddarlithydd yn adran Astudiaethau Teulu a Phlentyndod Prifysgol Glyndŵr, sy'n adolygu cyhoeddiad newydd David J. Ball a Laurence Ball-King – *Public Safety and Risk Assessment: Improving Decision Making*.

'Dyw *Public Safety and Risk Assessment: Improving Decision Making* ddim yn deitl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn rhuthro i'r siop lyfrau i'w brynu, ond credwch fi mae'r llyfr hwn yn drysor.

Mae'r awduron yn dechrau trwy gyflwyno rhywfaint o gyd-destun, yn cynnwys astudiaethau achos diddorol i baratoi'r llwyfan a chyflwyno'r ddadl y gall gormod o ddiogelwch fod yn beth drwg. Trwy ddefnydd goreiddgar o gyfundrefnau diogelwch, bydd hyrwyddo diogelwch yn colli ei hygredd ac yn gosod pobl mewn perygl. Yn ogystal gall gweithrediad ymosodol ac annoeth, hyd yn oed, mentrau iechyd a diogelwch gael effaith andwyol sylweddol ar les, hapusrwydd a mwynhad y cyhoedd.

Caiff amrywiaeth o dechnegau asesu risg eu dynodi a'u disgrifio, gan egluro sut i'w defnyddio, yn

ogystal â'u defnydd anghywir, tra'n pwysleisio bod asesu risg ond yn un rhan o broses rheoli risg – y meddwl y tu ôl iddynt a'r farn derfynol yw'r rhan allweddol. Yn y bennod '*Is Safety Paramount?*' ceir adolygiad cynhwysfawr o dystiolaeth i'r gwrthwyneb. O ddiddordeb penodol y mae'r dystiolaeth o'r llysoedd barn sy'n pwysleisio'r angen, mewn cymdeithas wâr, i daro cydbwysedd rhwng diogelwch a rhyddid. Ceir dyfyniad gan Y Trysrols sy'n cydnabod y dylid ystyried costau'n ogystal â buddiannau wrth lunio penderfyniadau, ac y dylai'r rhain gynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Yma mae'r awduron yn dechrau cael gwir afael ar ddadl y mae'n amlwg y maent yn frwd yn ei chylch – ac yn un y bydd gweithwyr chwarae'n cydymdeimlo â hi.

Mae doethineb cyffredin cyfoes ar weithrediad iechyd a diogelwch yn cael effaith niweidiol ar y byd cyhoeddus a bywyd cyhoeddus yn gyffredinol. Tra'n parhau i fod yn wrthrychol, maent yn cyflwyno her gadarn gan ddyfynnu enghreifftiau sy'n tystio i'r ffaith nad yw diogelwch, mewn gwirionedd, o'r pwys mwyaf, ac fel mae'n digwydd y gwrthwyneb sy'n wir.

Daw diogelwch am gost, ac mae'r cost hwnnw'n rhywbeth yr ydym yn barod i'w dalu, ond y tu hwnt ac uwchlaw i lefel penodol byddai'n well gennym dderbyn y risg cysylltiedig yn hytrach na chostau pellach.

Mae'r llyfr yn cloi gyda golwg ar lenyddiaeth a mentrau cyfoes sy'n ymwneud â darpariaeth chwarae. Defnyddir y diwydiannau gweithgareddau antur, at ddibenion cymharu, i ddadlau achos asesu risg-budd, cyn dynodi fframweithiau cysyniadol newydd sy'n ddefnyddiol ar gyfer eiriol dros agwedd fwy realistig tuag at reoli iechyd a diogelwch mewn chwarae plant a'r byd cyhoeddus.

Dyma lyfr gwych, sy'n hwyliog a heriol, sy'n darparu mynediad i ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth ar gyfer gweithwyr chwarae, pobl sy'n gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd a'r gweithlu plant ehangach. Os y teimlwg fyth eich bod angen mwy o wybodaeth i lunio achos effeithiol dros chwarae plant a'i risg cysylltiedig cynhenid, yna dyma'r llyfr i chi.

Mae fersiwn llawn o'r adolygiad llyfr hwn ar gael i'w lawrlwytho ar: www.chwaraecymru.org.uk

Ymchwil chwarae'n llawn risg

Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn *Evolutionary Psychology* yn dangos bod dysgu mentro trwy chwarae'n fodd pwysig o helpu plant i ymdopi â, a meistroli, heriau a ffobiâu sy'n rhan o'u bywyd. Canfyddodd yr academwyr bod cynnig cyfleoedd am brofiadau cynhyrfus i blant trwy chwarae llawn risg yn helpu i sicrhau eu bod yn tyfu i fyny i fod yn oedolion normal, call.

Wedi dadansoddi ystadegau am ddamweiniau mewn meysydd

chwarae o Norwy, Awstralia a Lloegr, gwelwyd bod anafiadau o ganlyniad i chwarae plant fel cleisiau, torri esgyrn a chyfergydion, gan amlaf yn rhai dros dro a phur anaml y byddent yn achosi'r math o drawma fyddai'n effeithio ar ddatblygiad normal.

Meddai Ellen Sandseter, athro seicoleg o Brifysgol Y Frenhines Maud yn Norwy, un o gyd-awduron y papur ymchwil:

'Mae plant angen wynebu risg a goresgyn ofnau ar y maes chwarae. Wrth i feysydd chwarae fynd yn fwy a mwy diflas, dyma rai o'r ychydig nodweddion all ddal i gynnig profiadau cynhyrfus i blant gydag uchder a chyflymder.'

Mae *Children's Risky Play from an Evolutionary Perspective: The Anti-Phobic Effects of Thrilling Experiences* ar gael oddi ar: www.epjournal.net/wp-content/uploads/EP092572842.pdf

Rhwygo'r rheolau

Yma mae Bernard Spiegel o PLAYLINK yn galw arnom i bwyllo ac ail-ystyried rhagdybiaethau niweidiol ac agweddau hen ffasion tuag at ddylunio, adeiladu a chynnal a chadw manau chwarae.

Mae PLAYLINK yn credu, ac yn gweithredu ar y gred, y gall yr amgylchedd awyr agored lleol – ystadau preswyl, strydoedd, parciau a manau agored – gyflawni'r swyddogaeth allweddol o feithrin chymdeithasgarwch anffurfiol rhwng y cenedlaethau. Fel y dywedodd Ken Worpole: 'Pan fyddwn y tu allan 'does dim yn sefyll rhyngom ni a'r byd ... Pan fyddwn yn cwrdd â phobl eraill yn y byd awyr agored hwn, rydym yn fwy tebygol o gwrdd â nhw fel rhyddweithredwyr ac unigolion annibynnol na fyddwn ym myd graddedig ac amodol bywyd sefydliadol neu fasnachol ... Mae'r parc a'r stryd yn rhoi ein rhyddid inni, ac mae'r adeiladau, yn rhy aml o lawer, yn ei ddwyn oddi arnom'.

Fodd bynnag, yn drist iawn, ac yn rhy aml o'r hanner, caiff yr awyr agored ei ystyried fel man ofnus ac anghyfeillgar. Ym marn PLAYLINK gall manau ble fo'r galw pennaf am 'ddiogelwch', gaiff ei gonsurio trwy dechnoleg gwyliadwraeth a rhaff o waharddiadau, ddwysáu'r afiechyd y maent yn honni y byddant yn ei wella. Rydym, felly, yn sefyll dros fodel gwahanol: rhagdybiaeth o blaid diwylliant sy'n caniatáu. Yr agwedd seiliedig ar werth yma fydd yn hysbysu ein hagwedd tuag at ofod awyr agored.

Herio hen arferion

Cafwyd tueddiad i gysniadoli manau awyr agored a'u defnydd trwy gyfuno'r elfen 'oedran' â'r elfen 'swyddogaeth' mewn modd

digon mecanyddol. Yn gryno, y syniad confensiynol bod plant angen ardaloedd chwarae penodedig; bod pobl ifainc yn eu harddegau angen manau chwarae amldefnydd neu debyg; bod oedolion angen gerddi cymunedol a rhandiroedd. Wrth gwrs, mae rhywfaint o wirionedd yn hyn. Fodd bynnag, pan ddefnyddir yr agwedd yma fel templed caeth, gall yr effaith fod yn gyfyngol ac, mewn gwirionedd, leihau'r posibilrwydd o feithrin ymdeimlad o agosatrydd cymdeithasol ar draws y cenedlaethau.

Ceir barn amgenach, un sy'n deall bod manau awyr agored yn leoliadau posibl ac ymarferol ar gyfer amrywiol gyfarfodydd anffurfiol. Yma, bydd manau awyr agored yn hwyluso ac yn annog defnydd cymysg a chymdeithasgarwch anffurfiol. Gellid defnyddio'r term 'grŵn pentref' fel llaw-fer ar gyfer yr agwedd y mae'r erthygl yma'n ceisio ei hyrwyddo.

Cymerwch sedd

Yn draddodiadol, roedd y rhagdybiaethau oedd yn llywodraethu chwarae a darpariaeth hamdden anffurfiol ar ystadau preswyl yn cynnwys y dylai:

- fod wedi ei gyfyngu i ardaloedd penodedig;
- fod â ffens o'i amgylch, ar wahân ac yn wahanol i fannau cymunedol gaiff eu rhannu;
- fod â dim rôl o gwbl wrth greu ymdeimlad ehangach o gymdogrwydd, a'i fod yn ymwneud mwy â 'heidio' adran o'r boblogaeth;
- fod â ffocws ar offer safonol, gwneuthuredig, sy'n aml yn fetal, er bod gennym bellach rai amneidiau tuag at y 'naturiol' gyda mwy o ddefnydd o strwythurau pren;

- fod â ffocws ar ystod oedran penodol;
- fod wedi ei wahanu o ran oedran o fewn yr ardal chwarae;
- fod â dim seddi neu ofod rhydd ('slac') – mewn gwirionedd, yn aml iawn caiff seddau eu dylunio allan, a hynny'n aml mewn ymateb i ymgynghoriaethau lleol.

Gwir effaith yr agwedd yma yw cynhyrchu manau anneniadol sydd, trwy arwyddion a symbolau, a'r rheini'n rhai digrybwyll ac amlwg, yn dad-gyfreithloni presenoldeb plant a phobl ifainc yn eu cymdogaethau ehangach. Ar y llaw arall, gallai amcanion amgen gynnwys:

- creu amodau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol rhwng y cenedlaethau;
- cyfreithloni presenoldeb plant a phobl ifainc yn eu harddegau mewn manau cymunedol gaiff eu rhannu;
- darparu cyfleoedd chwarae a hamdden;
- creu amgylcheddau 'gwyrdd', mwy naturiol a deniadol.

Cyrtiau peli

Fel arfer, mae cyrtiau peli'n fannau wedi eu tarmacio â goliau a / neu chylch pêl fasedg a chawell o'u cwmpas.

Yn aml, mae'n ymddangos fel bod cyrtiau peli wedi cael eu parasiwtio i mewn i ystadau heb feddwl fawr ddim am gyd-destun ehangach eu hamgylchedd lleol, na'u heffaith gweledol neu o ran sŵn.

Mae darpariaeth cyrtiau peli ei hun wedi ei gloi i mewn i gyfres o ragdybiaethau, er enghraifft:

- mae angen iddynt fod yn ddigon mawr i ddal tîm pêl-droed pump neu saith bob ochr;
- mae'n rhaid iddynt fod ar ffurf petryal gyda ffens o'i hamgylch sy'n 3m-3.5m o uchder;
- allan nhw ddim bod yn hardd i edrych arnynt;
- 'does dim angen iddynt gynnig cyfle i eistedd a gwyllo'r chwarae.

Gellir mynd i'r afael â chyrtau peli mewn modd mwy dychmygus. Mae'n wir wrth gwrs, y byddant bob amser ag effaith gweledol amlwg, a sŵn i ryw raddau. Ond mae hyn yn pwysleisio'r ffaith bod angen gwneud ymdrech i liniaru eu nodweddion negyddol. Er enghraifft, bydd gosod ffens is ar o leiaf un ochr yn newid effaith gweledol y cwrt ar unwaith, ac mae'n gam sylweddol tuag at wneud i'r ardal deimlo'n rhan o'i amgylchedd. Gellir darparu manau eistedd mewn amrywiol ffyrdd. Y nod yw gwneud ardaloedd gemau pêl yn leoliadau deniadol ble y bydd pobl yn teimlo y gallant hamddena ac ymgynnull.

Cynnal a chadw, iechyd a diogelwch

Yn aml bydd ystyriaethau 'cynnal a chadw' a 'iechyd a diogelwch' yn gweithredu fel atalwyr i'r posibilrwydd o fentro i arferion newydd. Mae briff PLAYLINK *The maintenance of public parks, open spaces, playable spaces and designated play areas*, yn egluro bod cyfle i wneud newidiadau buddiol i hen arferion sefydledig. Cafodd hyn ei arddangos yn amlwg iawn gan dîm manau gwyrdd Cyngor Islington: maent wedi cwtogi costau cynnal a chadw tywod £20,000 y flwyddyn – ac mae hynny trwy gadw'r tywod, yn hytrach na chael ei wared!

Mewn egwyddor, nid oes angen i bryderon ynghylch cynnal a chadw neu iechyd a diogelwch lesteirio datblygu agwedd fwy meddwl agored tuag at y posibiladau y gall yr awyr agored eu cynnig a'u caniatáu – fel y soniodd Ken Worpole '...Mae'r parc a'r stryd yn rhoi ein rhyddid inni ...'

Astudiaeth achos (o fath)

Dyma rai sylwadau, yn seiliedig ar gynlluniau PLAYLINK sydd wedi bod yn rhedeg rhwng wyth mis a phedair blynedd.

Yn y dechreuad

Bu ymgynghori yn amod (yn obsesiwn hyd yn oed?) gan bob cleient, wedi ei gefnogi fel arfer gan ofynion grant gwahanol arianwyr. Yn rhy aml, fydd dim syniad eglur am bwrpas yr ymgynghori. Gall hyn arwain at fersiwn o'r modd 'dalen lân' o ymgysylltu, ble caiff y celwydd ei ledaenu y bydd cynllun yn ganlyniad i ddymuniaid trigolion / plant / pobl ifainc ac nad oes gan yr ymgynghorwyr eu hunain farn o gwbl ond eu bod, yn syml, yn gyfrwng ar gyfer barn pawb arall.

Mae gennym farn gyffredinol ynghylch yr hyn a olygir wrth ofod cymunedol gaiff ei rannu, a byddwn yn ei lleisio – â pharch a gwyleidd-dra. Ond mae gennym farn. Ac o'r herwydd, yn fy marn i, rydym wedi gallu cymryd camau – ac i arwain pobl gyda ni – i dir na fyddid wedi ei ystyried o'r blaen. Felly, mewn tai cymdeithasol mae gennym lwybrau, manau eistedd, tywod heb ffens o'i amgylch a nodweddion eraill ac, os nad harddwch bob tro, yna'n sicr natur atyniadol: ardaloedd ble y gall pob oedran eistedd a hamddena – ac fe fyddant.

Cadw wyneb

Mae gormod o'n profiad yn awgrymu bod cynnal a chadw wedi tyfu'n arfer amddiffynnol gaiff ei seilio ar yr hyn na ellir ei wneud, yn hytrach na'r hyn allai fod yn bosibl. Y rheswm am hyn, yn rhannol, yw nad yw gwaith cynnal a chadw'n cael ei barchu'n ddigonol.

Gall y modd y caiff gwaith cynnal a chadw ei gostio fod yn ddirgelwch astrus sy'n atal unrhyw ddadansoddiad – a thrwy hynny reolaeth neu ddiwygiad. Roedd parc a gynllunio ble y ceir parc peli wedi ei ddylunio a heb ffens, strwythurau heb ffens wedi eu gwasgaru trwy'r parc, ardal chwarae tywod heb ffens a llyn gwag

a nodweddion parc cyffredin – â chostau cynnal a chadw ar raddfa chwerthinllyd gan y cwmni dan gontract oedd yn gyfrifol am y safle ar y pryd.

Fodd bynnag mewn partneriaeth, yn cynnwys ni, y datblygwr, y cleient awdurdod lleol, cafodd y costau hyn eu gwrthod, eu herio a'u trechu. Fe gymerodd hyn tua blwyddyn. Mae'r costau cynnal a chadw erbyn hyn yn llai o lawer na'r pris gwreiddiol.

Gwersi i'w dysgu

'Dyw hyn ddim yn fater dylunio mewn gwirionedd. Yr hyn sydd ei angen yw dyncwch, bwriad cyffredin a dewrder, yn un peth er mwyn gwrthsefyll y pwysau i lynu at amserlenni afrealistig sy'n ystyried dim ar gymhlethdod rhai cynlluniau a'r materion llosg y bydd rhaid delio â hwy.


Cyhoeddwyd yr erthygl hon yn wreiddiol yng nghylchgrawn *Green Spaces* (Mehefin 2011) ac fe'i cyhoeddir yma â chaniatâd yr awdur.

CYFEIRIO

Papur 'Places in common' gan Bernard Spiegel, cyhoeddwyd yn y *Journal of Urban Regeneration and Renewal* (Cyfrol. 5, 2)

Papur briffio gan PLAYLINK - *The maintenance of public parks, open spaces, playable spaces and designated play areas*.

Mae'r ddau bapur ar gael i'w lawrlwytho oddi ar: www.playlink.org



P³ y diweddaraf am peilot lefel 3

Pleser o'r mwyaf inni yw cael cyhoeddi bod peilot o'r cymhwyster Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) lefel 3 cyntaf yn cael ei gynnal yn Rhondda Cynon Taf. Wedi cyfnod datblygu o ddim ond chwe mis mae bellach ar y fframwaith fel cymhwyster cydnabyddedig ac yn gymwys ar gyfer ariannu cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r cymhwyster lefel 3 yn cynnwys Gwobr, Tystysgrif a Diploma. Fel y cymhwyster lefel 2, mae'n seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac mae'n gosod y plentyn yn chwarae wrth galon y gwaith. O ran cynnwys, mae'n mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac mae ei ddyluniad unigryw'n golygu bod meysydd allweddol yn cael eu ailadrodd a'u datblygu o ran dyfnder a chymhlethdod wrth i'r cymhwyster fynd rhagddo. Daw llawlyfr cynhwysfawr ar gyfer yr hyfforddwr a'r dysgwr gyda'r cymhwyster. Ar hyn o bryd, mae'r llawlyfrau ar gyfer y Wobr yn gyflawn ar ffurf drafft ac rydym yn gobeithio datblygu'r deunyddiau dysgu eraill ar gyfer y Dystysgrif a'r Diploma yn y dyfodol agos.

I ddysgwyr, bydd y cymhwyster yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer cynllunio, trosglwyddo

ac asesu eu darpariaeth gwaith chwarae ar gyfer pob plentyn, a datblygu eu rôl fel uwch-weithiwr chwarae. Mae hefyd yn darparu'r sylfaen delfrydol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd am barhau â'u astudiaethau gwaith chwarae mewn addysg bellach neu addysg uwch.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori mynegodd cyflogwyr yn gwbl glir bod gwir angen am gymhwyster lefel 3 o safon uchel oedd yn cyfuno sgiliau ymarferol a gwybodaeth damcaniaethol. Cafodd rhai o'n ymgynghorwyr Saesneg, fu'n rhan o'r ymgynghoriadau hyn, eu synnu gan y lefel uchel cyson o wybodaeth a dealltwriaeth a arddangoswyd gan gyfranogwyr – sydd yn amlwg yn arwydd ein bod yn cael effaith ar draws Cymru.

Mae ein cymhwyster arall – P³ lefel 2 – yn parhau i dyfu a datblygu ac mae wyth cwrs pellach wedi eu trosglwyddo dros y gaeaf ac mae llawer mwy wedi eu cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf.

Bydd 2012 yn gyfnod cyffrous hefyd ar gyfer lefel 2 gan y byddwn, ynghyd â'r corff dyfarnu sef y Scottish Qualifications Authority (SQA), yn adolygu a gwella'r fanyleb ac yn ei ail-gofrestru fel cymhwyster rheoledig.

I ddysgu mwy am gymwysterau P³ cysyllter â Tillie Mobbs tillie@playwales.org.uk

Chwarae a'r gweithlu

Arolwg traws-sector

Bydd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd digonol i blant chwarae. O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd yma, gan gydnabod y newidiadau posibl ddaw yn ei sgîl, mae Chwarae Cymru ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd ariannu ar gyfer cynyddu trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae a rhaglenni hyfforddi ar chwarae plant. Rydym angen darlun eglur o ddarpar-ddysgwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys pobl o fewn y sector gwaith chwarae a phobl mewn sectorau eraill sydd angen deall mwy am chwarae plant.

Er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol, rydym wedi creu holiadur ar-lein. Mae'r holiadur hwn wedi ei ddylunio'n benodol i'n galluogi i ddynodi'r man gorau i geisio ariannu ar gyfer trosglwyddo cymwysterau i gymaint â phosibl o bobl a gynrychiolir yn y gweithlu. Hyderwn y gallwch ein cynorthwyo trwy gwblhau'r arolwg monitro.

Er mwyn cwblhau'r holiadur ar-lein, ymwelwch â:

www.surveymonkey.com/s/chwaraeargweithlu

Dyddiad cau: 20 Ebrill 2012

Codi safon hyfforddiant gwaith chwarae

Ym mis Mawrth roedd 13 o ddysgwyr o bob cwr o dde a chanolbarth Cymru'n paratoi i ddechrau cwrs pedwar diwrnod a ddyluniwyd i wella eu addysgu ym maes addysg oedolion ac addysg parhaus. Mae Paratoi i Ddysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS) yn gymhwyster lefel 4 fydd yn eu helpu i gynllunio a throsglwyddo dysg effeithlon ac i ysgogi dysgwyr.

Mae'r cwrs wedi ei ariannu gan Goleg Cymunedol YMCA Cymru, sydd hefyd wedi cefnogi trosglwyddo nifer o gymwysterau lefel 2 P³ ar draws Cymru.

Bwriedir cynnal cwrs arall yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol agos.

Gwobr awdur gwaith chwarae

Yn ddiweddar, enwebwyd ein Swyddog Datblygu Cymwysterau, Richard Trew, a'i osod ar y rhestr fer ar gyfer y Wobr Awdur Gwaith Chwarae yn nhrydydd seremoni Gwobrau Blynnyddol Gwaith Chwarae. Ar y rhestr fer hefyd roedd Bob Hughes, Morgan Leichter-Saxby a Golygydd cylchgrawn *Ip-Dip*.

Dyma enwebiad Richard (ddim o waith Chwarae Cymru!):

'Richard yw awdur ac asgwrn cefn holl gymwysterau P3. Mae'n un

o'r bobl hynny sy'n bwrw ymlaen yn dawel â phethau'n y cefndir ond mae ei gyfraniad yn neilltuol – mae wedi rhoi lefel neilltuol o egni a brwdfrydedd i mewn i'r prosiect i ysgrifennu deunyddiau cefnogol sydd wir yn ysbrydoli ac addysgu dysgwyr ac, er gwaetha'r problemau ariannu, mae wedi gwrthod rhoi'r ffidil yn y to.'

Mae'r gwobrau'n anelu i ddatlu popeth sy'n dda am y sector gwaith chwarae. Bwriad y gwobrau yw canmol gwaith y sector gwaith chwarae trwy enwi pobl sydd wedi

gwneud cyfraniad a gwahaniaeth amlwg i fywydau y bobl y byddant yn gweithio â nhw.

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yn ystod 10^{ed} Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae a gynhaliwyd gan Meynell Games yn Eastbourne ym mis Mawrth. Llongyfarchiadau i enillydd y Wobr Awdur Gwaith Chwarae – Morgan Leichter-Saxby.

www.playworkconferences.org.uk/Awards.html

Archwilio Mannau Chwarae Cwtogi Costau gyda Rob Wheway

Yn ddiweddar, mynychodd Martin King-Sheard y cwrs hwn yng Ngogledd Cymru, gyda 12 cyfranogwr o bob cwr o'r rhanbarth – i gyd â chyfrifoldeb am reoli a dylunio manau chwarae. Cynhaliwyd y cwrs yn Ne Cymru hefyd.

Cyflwynodd Rob agwedd synnwyr cyffredin tuag at raglenni cynnal a chadw ac archwilio cyffredin, y gellir ei haddasu i weddu i anghenion manau chwarae penodol a thrwy hynny arbed arian. Roedd y cwrs yn edrych ar sut y gall rheolwyr meysydd chwarae wneud y defnydd gorau o adroddiadau archwiliadau blynnyddol er mwyn sicrhau bod rhaglenni cynnal a chadw cyffredin yn ymateb

yn effeithlon; cyflwynodd argymhellion defnyddiol ar sut i ddeall yr iaith a ddefnyddir mewn adroddiadau archwiliadau ac edrychodd ar y defnydd o laswellt fel Arwyneb Esmwytho Ardrowiadau (IAS) dilys o safbwynt esthetig, ariannol a diogelwch.

Cafodd y cwrs dderbyniad gwresog iawn a gwerthfawrogyd y cyfle i rydwethio a rhannu profiadau â chydweithwyr.

Adnoddau defnyddiol – o'r bedair gwlad

Chwarae plant: iechyd a lles

Yn ddiweddar cyhoeddodd Chwarae Cymru daflen wybodaeth newydd, *Chwarae plant: iechyd a lles*, ar gyfer arbenigwyr iechyd cyhoeddus, timau gofal sylfaenol a chydlynwyr ysgolion iach. Mae'n darparu gwybodaeth ynghylch pam fod chwarae'n hanfodol i iechyd a lles plant ac yn archwilio ffyrdd i ymateb i angen plant am fwy o amser a gofod ar gyfer chwarae'n rhydd.

Mae *Chwarae plant: iechyd a lles* ar gael i'w lawrlwytho oddi ar: www.chwaraecymru.org.uk

Advocating for Play

Mae PlayBoard Northern Ireland wedi lansio pecyn cymorth eiriolaeth â'r teitl *Advocating for Play*. Mae'r pecyn cymorth wedi ei anelu at gefnogi'r sector chwarae a'r sector gofal plant oedran ysgol i archwilio, cynllunio a throsglwyddo'r neges eiriolaeth chwarae.

Mae *Advocating for Play* ar gael i'w lawrlwytho ar: www.playboard.org

Getting it Right for Play

Mae *Getting it Right for Play* yn gyfres o ddangosyddion a pheycyn cymorth a gynhyrchwyd gan Play Scotland, i helpu awdurdodau lleol i wella dylunio a darparu manau a lleoliadau er mwyn i bob plentyn allu teimlo'n ddiogel a hyderus wrth chwarae'r tu

allan yn eu cymdogaeth. Bydd y pecyn cymorth hefyd yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol o ran nifer ac ansawdd.

Ymgyrch Love Outdoor Play

Lansiwyd *Love Outdoor Play* gan The Geography Collective yn 2010 i gynyddu a gwella chwarae awyr agored. Bellach Play England sy'n arwain yr ymgyrch gyda ffocws newydd i gyflawni'r nod gwreiddiol – sef gwneud yn siŵr bod mwy o blant yn gallu chwarae allan yn amlach trwy gynyddu gweithredu cymdeithasol dros chwarae plant.

I ymuno â'r ymgyrch ymwelwch â: <http://loveoutdoorplay.net>

DIGWYDDIADAU

International Council for Children's Play (ICCP) Tallinn 2012

Providing Play: Applications for policy and practice from research
18 - 19 Mehefin 2012
Tallinn, Estonia
www.iccp-play.org

PlayEducation – Reflective Weekend

Canolfan Blencathra, Gogledd Ardal y Llynnoedd
13 - 15 Gorffennaf 2012
Am fwy o wybodaeth ac i dderbyn ffurflen gais, galwch 01353 661294 neu ebostiwrch
playeducation@ntlworld.com

The Beauty of Play - The Essence of Play

7 - 9 Medi 2012
Swydd Stafford
www.ludemos.co.uk/BOP.htm

Child in the City 2012

26 - 28 Medi 2012
Zagreb, Croatia
www.childinthecity.com

Children and Youth in a Changing World

26 - 30 Tachwedd 2012
Orissa, India
www.kiit.ac.in/iaaes

Fforwm Gweithwyr Chwarae Cymru**Nodyn i'r Dyddiadur**

21 – 22 Mehefin 2012
Fferm Ystrad,
Y Bontnewydd-ar-Wy

Ariannu

Greggs Foundation

Cyflwynir grantiau o hyd at £2,000 i fudiadau elusennol cymwys sy'n trosglwyddo newidiadau cadarnhaol yn uniongyrchol i bobl mewn angen mewn ardaloedd ble y mae Greggs yn bresennol, unai â siop, swyddfa neu fecws. Mae'r Sefydliad yn blaenoriaethu mudiadau bychain, lleol.
www.greggsfoundation.org.uk

Rhaglen Grantiau Comic Relief UK

Mae'r rhaglen yn croesawu ceisiadau gan fudiadau sy'n cyflawni nodau un o'u rhaglenni – y mae un ohonynt yn gymunedau lleol. Mae'r cyfnod derbyn ceisiadau'n agor ar 10 Ebrill 2012 ac yn cau ar 29 Mehefin 2012.
www.comicrelief.com

Lloyds TSB Foundation

Mae'r Sefydliad yn ariannu elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anfantais. Mae eu ffocws ar gefnogi elusennau sydd heb eu hariannu'n ddigonol ond all wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl difreintiedig, trwy eu helpu i chwarae rhan fwy llawn yn y gymuned.
www.lloydstsbfoundations.org.uk

The Tesco Charity Trust Community Award

Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfraniadau unigol o rhwng £500 a £4,000 ar gyfer darparu buddiannau ymarferol fel offer ac adnoddau ar gyfer prosiectau sydd o fudd uniongyrchol i blant, ac oedolion a phlant ag anabledau.
www.tescopl.com/tescocharitytrust

Diwrnod Chwarae 2012

Ar ddydd Mercher 1 Awst, bydd cannoedd o gymunedau ar draws y DU yn dathlu hawl plant i chwarae. Yn ogystal â bod yn ddathliad, mae Diwrnod Chwarae'n gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

Bydd dathliadau Diwrnod Chwarae'n amrywio o ddiwyddiadau mewn dinasoedd, i

bartion chwarae â ffrindiau a theulu. 'Does dim ots sut y byddwch yn dathlu, yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn ymuno â'n gilydd i wneud safiad dros hawl plant i chwarae er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael rhyddid i chwarae.

Am gyngor ynghylch sut i ymuno yn yr hwyl, ymwelwch â gwefan Diwrnod Chwarae ar -
www.playday.org.uk.



Prif gyflwyniadau: Wendy Russell a Stuart Lester (Prifysgol Swydd Gaerloyw)

Cyflwynwyr gweithdai: Ben Tawil, Colin Powell, Mike Dessington / Gareth Stacey, Ben Greenaway, Dafydd Myrddin Hughes a Simon Bazley.

Caiff y digwyddiad ei gydlyn gan nifer o fudiadau'n gweithio mewn partneriaeth. NEW Play fydd yn gweinyddu'r digwyddiad ar ran y bartneriaeth. Bydd prisiau a ffurflenni archebu ar gael maes o law.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Simon Bazley ar 01352 702487.